OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2003 Rhif 607 (Cy.81)

PYSGODFEYDD MÔR, CYMRU

Gorchymyn Pysgod Cregyn (Ardal Fôr Benodedig) (Gwahardd Dulliau Pysgota) (Cymru) 2003

Wedi'i wneud	-	-	*6 Mawrth 2003*
Yn dod i rym	-	-	*9 Mawrth 2003*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 5, 5A a 15(3) o Ddeddf Pysgod Môr (Cadwraeth) 1967(**1**), ac sydd yn awr wedi eu breinio ynddo(**2**), drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

Enw a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Pysgod Môr (Ardal Fôr Benodedig) (Gwahardd Dulliau Pysgota) (Cymru) 2003 a daw i rym ar 9 Mawrth 2003.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "yr ardal fôr benodedig" ("*the specified sea area*") yw'r ardal hwnnw o Fae Caerfyrddin sydd i'r gogledd o linell yn rhedeg yn union tua'r de o Benrhyn Gŵ yr i bwynt y mae ei yn gyfesurynnau yn 04°10−Gor, 51°30−Gog yna tua'r gorllewin i 04°27−Gor, 51°30−Gog, yna tua'r gogledd i 04°27−Gor, 51°36−Gog, yna tua'r gorllewin i 04°42−Gor, 51°36−Gog, ac yna yn union tua'r gogledd ar draws yr Ynys Bŷr i'r arfordir yn Nimbych y Pysgod;

ystyr "carthu hydrolig" ("*hydraulic dredging*") yw'r dull o bysgota am folysgiaid dwygragennog sydd wedi'u claddu yng ngwely'r môr drwy dynnu'r carthwr y tu ôl i'r cwch ar ben pibell â thrawsfesur o 10-20cm a phwmpio dŵr o dan bwysedd uchel i geg y carthwr a'i gyfeirio yn ôl i fyny'r bibell gan greu sugnedd sy'n peri i ddeunydd, gan gynnwys y pysgod y certhir amdanynt, gael eu codi i wyneb y dŵ r,

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Pysgod Môr (Cadwraeth) 1967;

ystyr "molysgiaid dwygragennog" ("*bivalve molluscs*") yw molysciaid gyda chragen ddeuran golfachog sy'n cau am ddarnau meddal yr anifail.

(**1**) 1967 p.84.
(**2**) Yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999 Rhif 672) trosglwyddwyd swyddogaethau "y Gweinidogion" o dan y Ddeddf i'r Cynulliad.

Gwaharddiad

3. Mae carthu hydrolig i hel molysgiaid dwygragennog yn yr ardal fôr benodedig drwy hyn yn cael ei wahardd.

Pwerau swyddogion pysgodfeydd môr Prydeinig o ran cychod pysgota

4.—(1) At ddibenion gorfodi erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn caiff swyddog pysgodfeydd môr Prydeinig arfer mewn cysylltiad ag unrhyw gwch pysgota Prydeinig sydd yn y môr tiriogaethol cyfagos i Gymru y pwerau a roddir gan baragraffau (2) i (4) o'r Erthygl hon.

(2) Caiff y swyddog fynd ar y cwch, boed gyda phobl wedi eu pennu i gynorthwyo gyda dyletswyddau'r swyddog neu hebddynt, ac i'r perwyl hwnnw, caiff fynnu bod y cwch yn aros a chaiff wneud unrhyw beth arall a fyddai yn hwyluso mynd ar y cwch.

(3) Caiff y swyddog fynnu presennoldeb y meistr a phobl eraill ar y cwch a chaiff wneud unrhyw archwiliad ac ymholiad yr ymddengys fod eu hangen at y dibenion a nodwyd ym mharagraff (1) o'r Erthygl hon ac, yn benodol—

(a) caiff archwilio unrhyw bysgodyn sydd ar y cwch a chyfarpar y cwch, gan gynnwys yr offer pysgota, a mynnu bod pobl sydd ar y cwch yn gwneud unrhyw beth sydd, yn nhyb y swyddog, ei angen i hwyluso'r archwilio;

(b) caiff fynnu bod unrhyw unigolyn ar y cwch yn dangos unrhyw ddogfen sy'n ymwneud â'r cwch, ei weithredoedd pysgota, neu weithredoedd sy'n ategol iddynt neu i'r bobl ar y cwch, sydd ym meddiant yr unigolyn hwnnw neu yn eiddo iddo a chaiff gymryd copïau o unrhyw ddogfen o'r fath;

(c) at ddibenion canfod a yw meistr, perchennog neu siartrwr y cwch wedi cyflawni trosedd o dan adran 5 o'r Ddeddf fel y'i darllenir gyda'r Gorchymyn hwn, caiff archwilio'r cwch am unrhyw ddogfen o'r fath a mynnu bod unrhyw unigolyn ar y cwch yn gwneud unrhyw beth sydd, yn nhyb y swyddog, ei angen i hwyluso'r archwiliad, ac

(ch) os oes gan y swyddog reswm dros gredu bod trosedd o'r fath wedi ei gyflawni mewn cysylltiad â'r cwch, caiff gipio a chadw unrhyw ddogfen a gyflwynir neu a ddarganfyddir ar y cwch at ddibenion galluogi defnyddio'r ddogfen fel tystiolaeth mewn achos sy'n ymwneud â'r trosedd;

ond nid yw dim byd yn is-baragraff (ch) uchod yn caniatáu i unrhyw ddogfen y mae'n ofynnol o dan y gyfraith ei chludo ar gwch gael ei chipio a'i chadw ac eithrio pan fo'r cwch wedi ei ddal mewn porthladd.

(4) Os ymddengys i swyddog pysgodfeydd môr Prydeinig fod adran 5 o'r Ddeddf fel y'i darllenir gyda'r Gorchymyn hwn wedi ei thorri ar unrhyw adeg o fewn ffiniau pysgodfeydd Prydain, caiff y swyddog hwnnw—

(a) mynnu bod meistr y cwch y bu'r trosedd yn gysylltiedig ag ef yn mynd â'r cwch a'i griw i'r porthladd sydd, yn nhyb y swyddog, y porthladd cyfleus agosaf, neu caiff y swyddog yntau wneud hynny; a

(b) dal y cwch yn y porthladd neu fynnu bod y meistr yn ei ddal yno;

ac os bydd swyddog o'r fath yn dal cwch neu'n mynnu bod cwch yn cael ei dal rhaid i'r swyddog hwnnw gyflwyno i'r meistr hysbysiad ysgrifenedig y bydd, neu fod, angen dal y cwch hyd oni thynnir yr hysbysiad yn ôl drwy gyflwyno i'r meistr hysbysiad ysgrifenedig arall a lofnodwyd gan swyddog pysgodfeydd môr Prydeinig.